# Machinery Rings

## What is a machinery ring?

A Machinery Ring is a 'not for profit' co-operative society of farmers and agricultural businesses who have the common aim of reducing machinery and labour costs. Supplier members benefit by spreading their machinery costs over a larger area; other members are able to reduce their capital investments in labour and machinery while at the same time having access to modern machinery when they need it. Machinery Rings provide the logistical and administrative structure to empower co-operation. They also act as an information hub and a signposting centre between members.

## What are the benefits of joining a ring ?

- Maximises the use of expensive equipment
- Provides access to a wide range of machinery and services
- Prompt payment via direct debit and direct credit
- Less paperwork
- Labour supply at peak times to suit your demands
- Access to a Fodder Database and regular newsletters with members' sales and wants
- Purchase of commodities in bulk, e.g. diesel, at competitive prices
- Economies of scale for all businesses regardless of size, so improving the viability of family farms
- The Rings are also registered Training Providers and can arrange training as well as securing funding for this where possible.

## Should you join?

- **What about that new enterprise** that you have been contemplating? If lack of suitable machinery is the hindrance then contact the Ring: there's probably someone on their database who has the equipment that you require.
- **Need to reduce input costs?** Contact the Ring because with their bulk purchasing power they can source cheaper fuel and electricity, as well as other inputs.
- **Fixed costs too high?** The Rings can help to reduce your fixed costs significantly
- **Got some time to spare** but would like to increase your income? The Ring are contacted by a variety of businesses that need relief staff from time to time. Maybe you have the skills that they require and you could make money in your spare time.

### How are machinery rings organized?

There are two machinery rings that operate within Wales: Cadwyn Cymru Link Wales, which serves north and mid Wales, and South & West Wales. They receive support and funding from Farming Connect to help promote and develop the Ring concept throughout Wales. The Rings already have many organic members and are anxious to hear from more organic producers in order to further develop the service.

**Contacts**

**Machinery Ring Association of England and Wales** www.machineryrings.org.uk

**Cadwyn Cymru / Link Wales**, Unit K, Henfaes Lane, Welshpool, Powys SY21 7BE.
Freephone 0800 783 1489.
Contact Dewi Jones (dewi@walesmr.com) or Gill Wood (gill@walesmr.com)
www.walesmr.com

**South and West Wales Machinery Ring**
Graham Perkins, Managing Director
01437 720730
gperkins@wwmr.co.uk
www.wwmr.co.uk

**Organic Centre Wales · Factsheet No 8 · October 2004**

*Published by Organic Centre Wales, Institute of Rural Sciences, University of Wales Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL. Tel. 01970 622248*

*Organic Centre Wales and its partners cannot accept any responsibility for the consequences of any actions taken on the basis of its factsheets or other publications.*

# Cylchoedd Peiriannau

## Beth yw cylch peiriannau?

Cydweithredfa ddi-elw o ffermwyr a busnesau amaethyddol sydd wedi ymuno gyda'r bwriad o ostwng costau peiriannau a llafur. Mae hyn yn golygu e.e. y gall perchennog peiriant newydd rannu cost y peiriant yn ehangach, ac fe allai'r aelodau eraill leihau eu buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a llafur ac, ar yr un pryd, manteisio ar waith peiriannau newydd. Mae Cylchoedd Peiriannau yn rhoi'r sylfaen o ran offer, adnoddau a gweinyddu i alluogi cydweithredu. Maen nhw hefyd yn gallu bod yn ganolfan i rannu gwybodaeth rhwng yr aelodau.

## Pa fanteision sy'n dod o ymuno ?

- Gwneir defnydd llawn o beiriannau costus
- Gellir gwneud defnydd o ystod helaeth o beiriannau a gwasanaethau arall
- Taliadau prydlon trwy ddefnyddio debyd uniongyrchol a chredyd uniongyrchol
- Llai o waith papur
- Cyflenwad o lafur pan fydd ei angen arnoch
- Cyfle i ddefnyddio Cronfa Ddata Porthiant a chael cylchlythyr rheolaidd gyda newyddion am beth mae aelodau am werthu neu brynu
- Gellir prynu meintiau mawr o bethau, e.e. disel, am brisiau da
- Darbodion maint i bob busnes, beth bynnag fo maint y busnes, ac felly y mae ffermydd teulu yn fwy iach yn ariannol
- Mae'r Cylchoedd yn Ddarparwyr Hyfforddi cofrestredig ac felly y gallen nhw drefnu hyfforddiant a chael arian i dalu amdano, os oes modd ei gael.

## A ddylech chi ymuno?

- **A hoffech chi roi cynnig ar dyfu cnwd** amgen neu wneud rhan o'ch gwaith mewn ffordd wahanol ond nid oes gennych y peiriannau? Peidiwch â gadael hyn i'ch rhwystro oherwydd mae'n ddigon posib fod gan rhywun sydd ar lyfrau'r Cylch y modd i'ch helpu.
- **Am arbed arian?** Cysylltwch â'r cylch oherwydd efallai y byddent yn gallu diogelu ichi gyflenwad rhatach o danwydd, trydan a nwyddau eraill oherwydd eu bod yn brynwyr sylweddol.
- **Costau sefydlog yn rhy uchel?** Mae'r Cylchoedd yn gallu helpu i leihau eich costau sefydlog yn sylweddol
- **Oes gyda chi amser sbâr** ond fuasai'n dda gyda chi i ychwanegu at eich incwm? Defnyddia busnesau arall y Cylch i chwilio am lafur ar adegau prysur, ac efallai fod gennych y sgiliau sydd eu hangen arnynt.

## Sut y trefnir y cylchoedd peiriannau?

Mae dau gylch peiriannau ar waith yng Nghymru, sef Cadwyn Cymru Link Wales, sy'n cwmpasu'r gogledd a'r canolbarth, ac un i'r de a'r gorllewin. Maen nhw'n cael cymorth ac arian oddi wrth Gyswllt Ffermio i helpu i hybu a datblygu'r syniad hwn o Gylchoedd ledled Cymru. Mae ganddynt lawer o aelodau organig yn barod, ac maent yn awyddus i glywed gan gynhyrchwyr eraill er mwyn datblygu'r gwasanaeth ymhellach.

## Cysylltiadau

**Machinery Ring Association of England and Wales** www.machineryrings.org.uk

**Cadwyn Cymru / Link Wales**, Uned K, Lôn Henfaes, Y Trallwng, Powys SY21 7BE. Rhadffôn 0800 783 1489. Dewi Jones (dewi@walesmr.com) neu Gill Wood (gill@walesmr.com) www.walesmr.com

**Cylch Peiriannau Gorllewin Cymru**
Graham Perkins, Rheolwr Gyfarwyddwr
01437 720730 / 07879 601290
gperkins@wwmr.co.uk www.wwmr.co.uk



*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA 23 3AL. Ffon 01970 622248*

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*